**Cyngor Sir Ceredigion**

**Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw**
Huw Williams
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk


# Nodiadau Cyfarwyddyd

## (Mawrth 2014)

### Nodyn Cyfarwyddyd y Weithdrefn Gynllunio

# Nodiadau Cyfarwyddyd

## Cyflwyniad

Pan fyddwch yn cyflwyno cais cynllunio mae amrywiaeth o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) wneud eich cais yn un 'dilys'. Bydd gwahanol fathau a graddfa o gais yn gofyn am lefelau gwahanol o wybodaeth a dogfennaeth ategol. Ym mhob achos mae'r gofynion wedi'u pennu gan Gyngor Sir Ceredigion fel yr awdurdod cynllunio lleol. Pan fyddwch yn cyflwyno cais cynllunio bydd eitemau ar y **rhestr orfodol genedlaethol** yn gymwys yn y **rhan fwyaf o** achosion, a **gall fod** angen eitemau ychwanegol yn dibynnu ar y math o gais.

Er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu asesu cais yn briodol, mae angen gwybodaeth ychwanegol i ddangos sut mae datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn achos ceisiadau sy'n cael eu dosbarthu fel **Ceisiadau Mawr**, wedi'u diffinio fel datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

a) cloddio neu weithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau;
b) datblygu gwastraff;
c) darparu tai annedd lle
   i. mae nifer y tai annedd i'w darparu yn 10 neu ragor
   ii. mae'r datblygiad i'w gwblhau ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu ragor ac ni wyddys a yw'r datblygiad wedi'i gynnwys o fewn paragraff (c)(i);
ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
d) datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu ragor

**Mae'n rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth o'r rhestr gofyniad lleol lle y bo'n gymwys neu bydd y cais yn annilys ac ni chaiff ei ystyried.**

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd dynodedig yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hystyried yn geisiadau **mawr** ac felly bydd angen gwybodaeth o'r rhestr leol at ddibenion dilysu. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyflenwi bydd eich cais yn **annilys** ac felly ni chaiff ei ystyried.

Yn achos Ceisiadau Bach, er na all yr ACLl annilysu eich cais am beidio â chynnwys yr wybodaeth hon, **gall methu â'i darparu olygu na fydd eich cais yn cael ei ystyried ac yn y pen draw gall arwain at wrthod eich cais.** Felly fe'ch cynghorir yn gryf i gyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol gyda'ch cais ar y dechrau er mwyn i'ch cais allu cael ei benderfynu mewn ffordd amserol.

Mae'n hollbwysig eich bod yn darllen y **ddwy** restr i sicrhau bod eich cais yn cynnwys yr holl ddogfennaeth berthnasol er mwyn iddo gael ei asesu'n briodol gan yr ACLl. Bydd defnyddio'r rhestrau cenedlaethol a lleol yn:

- helpu ymgeiswyr cynllunio, o'r cychwyn cyntaf, i ddeall y math o wybodaeth a faint o wybodaeth y bydd angen iddynt ei darparu;
- rhoi mwy o sicrwydd i'r ymgeisydd;
- galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gael yr holl wybodaeth y mae ei hangen arno i benderfynu'r cais, drafftio'r caniatâd cynllunio a geirio unrhyw amodau cynllunio sy'n ofynnol;
- lleihau'r risg y bydd rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fynd yn ôl at yr ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth ac felly'r risg na bydd yr awdurdod yn llwyddo i gyrraedd targedau perfformiad

Mae hefyd yn hollbwysig eich bod yn ystyried y 'Rhestr Wirio' i sicrhau eich bod yn cyflwyno gwybodaeth gywir; drwy wneud hyn nydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu dilysu eich cais mor gyflym â phosibl.

## Y Rhestr Genedlaethol

Mae'r rhestr genedlaethol yn amlinellu'r gofynion statudol ar gyfer ceisiadau. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

- y ffurflen gais wedi'i chwblhau;
- y tâl cywir (os oes ei angen);
- tystysgrifau perchnogaeth;
- tystysgrif daliadau amaethyddol;
- Datganiad Dylunio a Mynediad (os oes ei angen);
- cynllun lleoliad safle;
- cynlluniau a lluniadau eraill neu wybodaeth sydd ei hangen i ddisgrifio testun y cais a datganiad amgylcheddol (os oes ei angen);
- Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth;
- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd;
- Asesiad Sŵn;
- Asesiad Effaith Manwerthu;
- Arfarniad o Annedd Menter Wledig;
- Asesiad Cludiant;
- Arolwg Coed.

Os na chaiff ei anfon yn electronig bydd angen **1 ddogfen wreiddiol a 3 chopi** o'r holl wybodaeth ar yr awdurdod. Pedwar copi o'r wybodaeth/cynlluniau yw'r gofyniad statudol ar gyfer cais dilys; fodd bynnag, gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn i ymgeisydd gyflwyno mwy na phedwar copi, a bydd hyn yn digwydd yn achos ceisiadau ar raddfa mwy fel arfer. Dylai pob cynllun electronig ddatgan maint y papur a ddefnyddir, e.e. A3, A2 a graddfa'r lluniadau.

## Y Rhestr Leol

Mae'r rhestr leol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a all fod ei hangen er mwyn i'r ACLl allu penderfynu'r cais. Bydd defnyddio'r rhestr genedlaethol a'r rhestr leol yn rhoi mwy o sicrwydd i'r awdurdod a'r ymgeisydd am y math o wybodaeth sydd ei hangen ar y cychwyn ac yn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth a geisir yn gymesur â'r math o gais a graddfa'r cais sy'n cael ei wneud. **Gallai methu â darparu'r wybodaeth ychwanegol a geisir gan yr ACLl, fel y'i rhestrir yn y rhestrau lleol, arwain at wrthod cais cynllunio.**

## Tabl 1: Gofynion Cenedlaethol

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Ffurflen Gais Safonol (1APP)** | | Pob cais | Ffurflen gais wedi'i chwblhau | Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/planning/<br><br>Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=10003 |
| **Tystysgrif Perchnogaeth wedi'i llofnodi** | | Pob cais | Bydd rhaid i chi gwblhau Tystysgrif Perchnogaeth o'r tir (naill ai A, B, C neu D) ar gyfer pob cais cynllunio | Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/general/faq/faqonlineappsforms<br><br>Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=10003 |
| **Tystysgrif Daliad Amaethyddol** | | Pob cais | 'Tystysgrif Daliad Amaethyddol' sy'n cadarnhau a yw unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn cyfeirio ato yn rhan o daliad amaethyddol.<br><br>Rhaid i chi gwblhau'r Dystysgrif Daliad Amaethyddol hyd yn oed oes yw'ch cais ar gyfer defnydd anamaethyddol.<br><br>Ystyr Daliad Amaethyddol yn yr achos hwn yw tir wedi'i gynnwys mewn cytundeb tenantiaeth. | Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/general/faq/faqonlineappsforms<br><br>Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=10003 |
| **Hysbysiad(au) o dan Erthygl 10 o Reoliad 7 (yn ofynnol pan fydd Tystysgrif B, C neu D wedi'i chwblhau)** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais lle nad yw'r ymgeisydd yn berchen ar y tir. | Rhaid cwblhau hysbysiad i berchnogion y safle a'i gyflwyno yn unol ag Erthygl 10 o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (ar gyfer ceisiadau cynllunio neu Reoliad 7 o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012. Ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor neu Swyddfeydd y Cyngor.<br><br>Dylid anfon Hysbysiad 1 i bob perchennog hysbys. Os nad yw'r perchnogion yn hysbys rhaid cyhoeddi Hysbysiad i Berchnogion Anhysbys (Hysbysiad 2) mewn papur newydd lleol.<br><br>Rhaid anfon copi o'r hysbysiad gyda'r cais i'r awdurdod lleol. | Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/planning/<br><br>Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=10003 |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Cod Cartrefi Cynaliadwy (CFSH) neu BREEAM - Cyn-asesiad** | Llywodraeth Cymru<br><br>Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 22 | Pob cais preswyl newydd<br>Pob cais dibreswyl dros 1 hectar mewn arwynebedd neu gydag arwynebedd llawr o 1000 metr sgwâr neu ragor | Rhaid i bob annedd fodloni Lefel 3 o'r Cod Cartrefi Cynaliadwy fel y nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru.<br><br>Rhaid i geisiadau dibreswyl (safle dros 1 hectar mewn arwynebedd neu le llawr o 1,000 metr sgwâr neu ragor) fod yn "dda iawn" o dan gynllun Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Hefyd disgwylir iddynt fodloni'r safon "Rhagorol" ar gyfer lleihau allyriadau carbon.<br><br>Rhaid i ddatblygwyr:<br><br>• gynnwys rhif cofrestru'r safle a manylion cyn-asesiad.<br>• defnyddio'r Datganiad Dylunio a Mynediad i ddangos eu hagwedd at gyflenwi adeiladau cynaliadwy a sut mae'r datblygiad wedi defnyddio'r hierarchaeth ynni. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn rhan annatod o ddyluniad y datblygiad cyfan ac nid yn rhywbeth ychwanegol.<br>• nodi yn y Datganiad Dylunio a Mynediad y safon adeiladau cynaliadwy a'r lefel lleihau carbon sydd i'w chyrraedd<br>• pan fydd technolegau ynni carbon isel neu ddi-garbon yn cael eu cynnwys, cyflwyno gyda'r cais gasgliadau astudiaeth ddichonoldeb, gan gynnwys y camau a gymerwyd, a dangos ar gynlluniau a lluniadau perthnasol lleoliad y technolegau hyn, a'u cyfateb yn agos â'r Datganiad Dylunio a Mynediad. | Polisi Cynllunio Cymru:<br>http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/;jsessionid=7FB84489D93147105B64E5326CF2184F?lang=en<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12:<br>http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/;jsessionid=C2D75FFE41F676333EF773FB1A403D46?lang=en<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 22:<br>http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan22/;jsessionid=C2D75FFE41F676333EF773FB1A403D46?lang=en<br><br>Y Porth Cynllunio - Cod Cartrefi Cynaliadwy:<br>http://www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/greenerbuildings/sustainablehomes/<br><br>Y Cod Cartrefi Cynaliadwy (nodion hysbysu Ceredigion)<br><br>http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=39894&langtoken=eng<br><br>BREEAM:<br>http://www.breeam.org/index.jsp |
| **Datganiad Dylunio a Mynediad** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012<br><br>Rheoliadau Cynllunio | Pob cais ar wahân i:<br><br>• weithrediadau peirianneg neu fwyngloddio<br>• datblygiad deiliad tŷ<br>• newid perthnasol yn y | Dylai'r Datganiad Dylunio a Mynediad esbonio'r cysyniadau ac egwyddorion dylunio sy'n berthnasol i'r datblygiad neu'r gwaith o ran:<br><br>• mynediad<br>• cymeriad (gan gynnwys maint, graddfa'r cynllun, golwg a thirlunio) | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012:<br>http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/contents/made<br><br>Polisi Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygiad Cymru) 2012<br><br>Polisi Cynllunio Cymru TAN 12<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion - Polisïau DM06-DM10 | defnydd o dir neu adeiladau (ond gall fod angen datganiad mynediad)<br>• rheoli hysbysebu<br>• gorchmynion cadw coed<br>• storio sylweddau peryglus<br>• ceisiadau materion wedi'u cadw'n ôl oni bai y gofynnwyd am adroddiad cynnydd Datganiad Dylunio a Mynediad drwy gyfrwng amod ar y caniatâd cynllunio amlinellol | • diogelwch cymunedol<br>• cynaliadwyedd amgylcheddol<br>• symudiadau i, o ac o fewn y datblygiad<br><br>Dylai ddangos y camau a gymerwyd i arfarnu cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd a pholisi'r datblygiad ac esbonio sut mae dyluniad y datblygiad yn ystyried y cyd-destun hwnnw mewn perthynas â'i ddefnydd arfaethedig a phob un o'r agweddau a nodwyd uchod. | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/793/contents/made<br><br>Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/;jsessionid=C2D75FFE41F676333EF773FB1A403D46?lang=en<br><br>Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/planning/<br><br>Nodyn Cyfarwyddyd 1 Datganiad Dylunio a Mynediad: Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=21569 |
| **Cynllun Lleoliad Safle** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais | 1. Graddfa 1:1250 neu 1:2500 ar fap cyfoes;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Cyfeiriad y Gogledd;<br>5. Lle y bo'n bosib, dangos dwy ffordd a enwir ac adeiladau cyfagos;<br>6. Dylai'r adeiladau a ddangosir gael eu rhifo / henwi i sicrhau bod union leoliad safle'r cais yn glir;<br>7. Dylai safle'r cais gael ei ymylu'n glir â llinell goch. Dylai gynnwys yr holl dir sydd ei angen i gwblhau'r datblygiad arfaethedig, e.e. tir sydd ei angen i gael mynediad i'r safle o briffordd gyhoeddus, lleiniau gwelededd, tirlunio, parcio ceir a mannau agored o gwmpas yr adeiladau;<br>8. Dylid tynnu llinell las o gwmpas unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno, yn agos at safle'r cais neu'n ei ffinio. | Y Porth Cynllunio http://www.planningportal.gov.uk/planning/ |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Bloc presennol ac arfaethedig** | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Diwygiad) (Cymru) 2012 | Pob cais lle y cynigir addasu neu estyn to. | 1. Graddfa 1:500 neu 1:200;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Cyfeiriad y Gogledd;<br>5. Adeiladau, ffyrdd a llwybrau troed presennol;<br>6. Y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â ffiniau'r safle ac adeiladau presennol eraill ar y safle, gyda dimensiynau ysgrifenedig gan gynnwys y rhai at y ffiniau;<br>7. Ffyrdd a llwybrau troed arfaethedig;<br>8. Adeiladau, ffyrdd a llwybrau troed ar dir sy'n ffinio'r safle, gan gynnwys trefniadau mynediad;<br>9. Hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi neu'n ffinio'r safle;<br>10. Safle pob coeden ar y safle, a'r rhai ar dir cyfagos a allai ddylanwadu ar y datblygiad neu gael ei heffeithio gan y datblygiad;<br>11. Maint a math ar gyfer unrhyw wyneb caled; a<br>12. Thrin ffiniau gan gynnwys waliau neu ffensys os cynigir y rhain. | Y Porth Cynllunio<br>http://www.planningportal.gov.uk/planning/ |
| **Gweddluniau presennol ac arfaethedig** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais, oni bai y nodir fel arall gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol | 1. Graddfa 1:50 neu 1:100;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Gweddluniau presennol gan gynnwys dimensiynau;<br>5. Dangos yn glir y gwaith arfaethedig o'i gymharu â'r hyn sydd yno eisoes;<br>6. Rhaid dangos pob gweddlun o'r cynnig gan nodi, lle y bo'n bosibl, y deunyddiau adeiladu arfaethedig, deunyddiau a gorffeniad ffenestri a drysau;<br>7. Rhaid cynnwys gweddluniau gwag hefyd, os mai dim ond i ddangos mai dyma yw'r achos;<br>8. Cynlluniau llawr arfaethedig;<br>9. Os yw gweddlun arfaethedig yn ffinio adeilad arall neu'n agos iawn ato, dylai'r lluniadau ddangos yn glir y berthynas rhwng yr adeiladau a manylion safleoedd yr agoriadau ar bob adeilad. | Y Porth Cynllunio<br>http://www.planningportal.gov.uk/planning/ |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun llawr presennol ac arfaethedig** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais | 1. Graddfa 1:50 neu 1:100;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Cynlluniau llawr presennol gan gynnwys dimensiynau;<br>5. Esbonio'r cynnig yn fanwl;<br>6. Os yw adeiladau neu waliau presennol i'w dymchwel, dylid dangos y rhain yn glir;<br>7. Dangos manylion yr adeilad(au) presennol yn ogystal â'r rhai ar gyfer y datblygiad arfaethedig;<br>8. Dylai adeiladau newydd hefyd gael eu dangos mewn perthynas ag adeiladau cyfagos (gan gynnwys rhifau'r adeiladau os yw'n gymwys). | Y Porth Cynllunio [http://www.planningportal.gov.uk/planning/](http://www.planningportal.gov.uk/planning/) |
| **Rhannau presennol ac arfaethedig y safle a lefelau gorffenedig y lloriau a'r safle** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais lle y cynigir newid lefelau'r tir. | 1. Graddfa 1:50 neu 1:100;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Dangos croestoriad(au) drwy adeilad(au) presennol/arfaethedig;<br>5. Ym mhob achos os yw'r cynnig yn cynnwys newid lefelau'r tir, dylai lluniadau eglurhaol gael eu cyflwyno i ddangos lefelau presennol a gorffenedig gan gynnwys manylion am y sylfeini a'r bondo a sut y bwriedir osgoi gorgyffwrdd â thir cyfagos;<br>6. Dylid rhoi gwybodaeth lawn hefyd i ddangos sut mae'r adeiladau arfaethedig yn cymharu â lefelau'r safle presennol a datblygiad cyfagos;<br>7. Dylai cynlluniau ddangos lefelau safle presennol a lefelau llawr gorffenedig (gyda lefelau wedi'u cysylltu â phwynt datwm sefydlog oddi ar y safle), a hefyd dangos y cynigion mewn perthynas ag adeiladau cyfagos. Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer pob cais sy'n cynnwys adeiladau newydd;<br>8. Yn achos datblygiad deiliad tŷ, efallai y bydd y lefelau yn amlwg o'r cynlluniau llawr a'r gweddluniau, ond yn arbennig yn achos safleoedd ar osgo bydd rhaid dangos sut mae'r cynigion yn cymharu â lefelau tir | Y Porth Cynllunio [http://www.planningportal.gov.uk/planning/](http://www.planningportal.gov.uk/planning/) |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | presennol neu ble y byddai lefelau tir y tu allan i'r cynnig yn cael eu haddasu. Dylai lefelau hefyd gael eu hystyried wrth lunio datganiadau dylunio a mynediad. | |
| **Cynlluniau to presennol ac arfaethedig** | Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 | Pob cais lle y cynigir addasu neu estyn to. | 1. Graddfa 1:50 neu 1:100;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Dangos cyfeiriad y Gogledd.<br>5. Defnyddir cynllun to i ddangos siâp ac unrhyw newidiadau i'r to;<br>6. Dylai manylion megis deunyddiau toi a'u lleoliad gael eu nodi ar y cynllun to. | Y Porth Cynllunio<br>http://www.planningportal.gov.uk/planning/ |
| **Lluniadau hysbysebu** | Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoliadau Rheoli Hysbysebu) 1992 | Unrhyw gais am hysbyseb, e.e. arwydd siop, arwydd blaengwrt ac ati. | 1. Graddfa 1:50;<br>2. Cyfeiriad y Safle<br>3. Maint y papur<br>4. Maint yr hysbyseb;<br>5. Lleoliad;<br>6. Deunyddiau;<br>7. Lliwiau i'w defnyddio;<br>8. Uchder uwchben y tir;<br>9. Maint y tafluniad;<br>10. Lluniadau gweddlun a chroestoriad o'r arwydd;<br>11. Dull a lliw(iau) goleuo. | Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoliadau Rheoli Hysbysebu) 1992:<br>http://www.legislation.gov.uk/uksi/1992/666/contents/made |
| **Cynlluniau Adeilad Rhestredig** | Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygiad Cymru) 2012 | Unrhyw gais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig | Yn ogystal â'r lluniadau a nodir uchod, dylai cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig hefyd gynnwys cynlluniau/lluniadau (graddfa 1:20) sy'n disgrifio'r gwaith, gan ddangos yn glir pa fanylion yw'r nodweddion newydd arfaethedig a pha rai sydd i'w symud ymaith. Unrhyw fanylion pensaernïol a effeithir gan y cynnig e.e.<br>• drysau<br>• ffenestri<br>• blaenau siop<br>• paneli<br>• llefydd tân<br>• mowldin plastr | Y Porth Cynllunio<br>http://www.planningportal.gov.uk/planning/ |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | • manylion addurnol eraill | |
| **Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth gan gynnwys Arolwg o Rywogaethau a Warchodir** | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau DM14, DM15 a DM16 | Rhaid paratoi Arolwg ac Adroddiad Ecolegol pan fydd datblygiad efallai yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth a/neu gysylltedd ecolegol (ar a/neu oddi ar y safle). Os yw'r effeithiau yn debygol, rhaid cael mesurau lliniaru/digolledu fel rhan o'r cynnig i gadw unrhyw niwed i'r lleiaf posibl. Mewn rhai achosion, efallai na fydd lliniaru a digolledu yn bosibl/ddigonol ac felly gellir gwrthod y cais. Bydd angen cynnwys ychwanegiadau ar bob datblygiad.<br><br>Ceir gwybodaeth ynghylch pryd mae angen a'r mathau o arolwg sydd eu hangen, amseriad arolygon, mesurau lliniaru a digolledu a rhagor yn y Nodyn Cyfarwyddyd Interim 'Nodyn Briffio ar gyfer Arolygon ac Asesiadau Ecolegol a Daearyddol'. Caiff hwn ei ddisodli gan Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur. | Mae dyletswydd ar yr awdurdod cynllunio i ystyried gwarchod bioamrywiaeth wrth benderfynu cais cynllunio; mae hyn yn cynnwys ystyried gwarchod rhywogaethau a safleoedd sydd wedi'u diogelu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1982 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, yn ogystal â dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gweledol 2006 a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir o dan y Ddeddf hon yn Adran 42.<br><br>Dylai'r **Arolwg a'r Asesiad** gael eu cynnal a'u paratoi gan unigolion cymwys sydd â chymwysterau a phrofiad addas, a rhaid iddynt gael eu cynnal ar amser ac yn ystod mis priodol o'r flwyddyn, mewn tywydd addas a chan ddefnyddio canllawiau/dulliau arolwg cenedlaethol cydnabyddedig pan fyddant ar gael (oni bai bod cyfiawnhad rhesymol gan yr ecolegydd dros ddefnyddio'r fethodoleg honno).<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol gan arolwg ac asesiad yn y Nodyn Cyfarwyddyd Interim 'Nodyn Briffio ar gyfer Arolygon ac Asesiadau Ecolegol a Daearyddol'. Caiff hwn ei ddisodli gan Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur. | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp Nodyn Cyfarwyddyd Interim Cyngor Sir Ceredigion |
| **Datganiad Amgylcheddol (Asesiad Effaith Amgylcheddol)** | Rheoliadau Effaith Amgylcheddol 2002 a 2007:<br><br>Cylchlythyr 11/9: Asesiad Effaith Amgylcheddol | Cysylltwch â'r ACLl i gadarnhau a oes angen adroddiad sgrinio.<br><br>Pob datblygiad wedi'i ddosbarthu fel Atodlen 1. | Bydd yr ACLl hefyd yn darparu barn gwmpasu/sgrinio ar yr elfennau y dylid eu cynnwys o fewn yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA).<br><br>Os oes angen AEA, rhaid darparu Datganiad Amgylcheddol yn y ffurf a bennwyd yn Atodlen 4 | Rheoliadau Effaith Amgylcheddol 2002 a 2007: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/?lang=en<br><br>Cylchlythyr 11/9: Asesiad Effaith |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau DM14, DM15 a DM16 | Pob datblygiad sy'n uwch na'r trothwyon a bennwyd yn Atodlen 2.<br><br>Ar gyfer datblygiad Atodlen 2 lle mae'r trothwyon yn cael eu rhagori, cysylltwch â'r ACLl ar gyfer Barn Sgrinio.<br><br>Os oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol bydd angen Barn Gwmpasu. | y rheoliadau. Os nad oes angen AEA, gall yr ACLl barhau i fynnu bod gwybodaeth amgylcheddol yn cael ei darparu. | Amgylcheddol http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular1199/?lang=en<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 15<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM11 | Rhaid i bob datblygiad ym mharth llifogydd C, C1 ac C2 gynnwys Asesiad Risg Llifogydd.<br><br>Rhaid i geisiadau o fewn Parth B gynnwys cynlluniau sy'n dangos lefelau'r safle a lefelau llifogydd. | Bydd tir a allai ddioddef lifogydd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu cais cynllunio.<br><br>Dylai Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd gael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol cymwys a bod yn gymesur â risg a graddfa, natur a lleoliad y datblygiad. Disgwylir iddynt ystyried yr amrywiol agweddau sy'n ymwneud â'r risg o lifogydd. Dylai'r Asesiad o Ganlyniad Llifogydd gael ei ategu gan ddata a gwybodaeth briodol gan gynnwys gwybodaeth hanesyddol ar ddigwyddiadau llifogydd blaenorol. Bydd rhaid i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth i ddangos bod eu cynnig yn bodloni'r profion yn TAN 15.<br><br>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniad ynghylch canlyniadau llifogydd ac a ydynt yn dderbyniol neu beidio wrth asesu'r risg i bobl ac eiddo. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan15<br><br>Mapiau Llifogydd: http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru: http://naturalresourceswales.gov.uk/<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Asesiad Sŵn** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 11<br><br>Cynllun Datblygu | Bydd rhaid i bob cais sy'n codi materion o aflonyddwch sylweddol neu yr ystyrir ei fod yn ddatblygiad sy'n sensitif i sŵn gyflwyno Asesiad Effaith Sŵn wedi'i baratoi gan acwstegwr | Dylai asesiadau gynnwys:<br><br>• gwybodaeth a mesuriadau o lefelau sŵn presennol<br>• gwybodaeth a mesuriadau o lefelau sŵn arfaethedig<br>• dulliau lliniaru | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan11 |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | Lleol Ceredigion Polisi DM22 | cymwysedig.<br><br>Ceisiadau ar safleoedd sy'n ffinio safleoedd sy'n cynhyrchu sŵn, h.y. datblygiad preswyl yn ffinio defnydd diwydiannol neu os yw'r datblygiad yn ffinio safle amgylcheddol sensitif megis Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. | • dulliau monitro | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Asesiad Effaith Manwerthu** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 4<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau: LU18-LU20 | Dylai pobl cais ar gyfer datblygiadau manwerthu a leolir y tu allan i ffin ddiffiniedig Canol y Dref gydag arwynebedd llawr gros sy'n fwy na 800 metr sgwâr gael ei ategu gan Asesiad Effaith Manwerthu. | Dylai'r asesiad ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:<br><br>• sut mae gofynion polisi canllawiau cenedlaethol wedi cael eu bodloni;<br>• a yw'r ymgeisydd wedi mabwysiadu ymagwedd ddilyniannol at ddewis safle ac argaeledd safleoedd eraill;<br>• yr effaith economaidd ac effeithiau eraill ar leoliadau manwerthu eraill, gan gynnwys canol y dref, canolfannau lleol a phentrefi, gan gynnwys ystyried effeithiol cronnus datblygiadau sydd newydd eu cwblhau a cheisiadau am ganiatâd cynllunio sy'n aros am benderfyniad;<br>• hygyrchedd drwy ddewis o ddulliau teithio gan gynnwys mynediad i gerddwyr, gydag asesiad o'r gyfran;<br>• cwsmeriaid sy'n debygol o gyrraedd ar y dulliau teithio gwahanol;<br>• y newidiadau tebygol mewn patrymau teithio dros y dalgylch;<br>• ac, os yw'n briodol, unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol.<br><br>Fel yr esbonnir ym Mholisi LU18: Cynigion Manwerthu ar draws y Sir, byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig sydd ag arwynebedd llawr | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 4, Para 6: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan4<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | manwerthu o fwy na 800 metr sgwâr yn fwy priodol i'w leoli yng nghanol y dref. | |
| **Asesiadau Cludiant** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 18<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM03 | Pob cais sy'n debygol o greu symudiadau traffig sylweddol yn gysylltiedig â datblygiadau sy'n uwch na'r trothwyon penodedig.<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol 18, Atodiad D yn nodi'r trothwyon a awgrymir y byddai ceisiadau sy'n uwch na'r rhain yn rhaid cael Asesiad Cludiant. | Mae trafodaethau cynnar rhwng datblygwyr a'r awdurdodau cynllunio a phriffyrdd perthnasol yn hollbwysig cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio er mwyn sicrhau cytundeb ar gwmpas yr Asesiad Cludiant, gan gynnwys cwmpas daearyddol, a sefydlu pa ddata sy'n bodoli neu ba arolygon sydd eu hangen. Mae Atodiad D o Nodyn Cyngor Technegol 18 Cludiant yn rhoi rhagor o fanylion.<br><br>Mae trafodaethau cynnar rhwng datblygwyr ac awdurdodau lleol yn hollbwysig i gytuno ar gwmpas yr asesiad a'r data sydd ei angen i lywio'r asesiad er mwyn osgoi oedi wrth benderfynu'r cais. Dylai'r trafodaethau gynnwys:<br><br>• lleoliad, math a graddfa'r datblygiad;<br>• a yw'r datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol â pholisi cynllun datblygu;<br>• a ddylai lleoliadau eraill gael eu hystyried (neu os oes un safle yn unig gan y datblygwr, pa fath neu raddfa arall o ddatblygiad allai fod yn fwy priodol);<br>• cynnwys a lefel manylion yr asesiad cludiant;<br>• unrhyw estyniad o'r dyddiad asesu dyluniad;<br>• amcanion ar gyfer y Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth;<br>• gofynion data ar gyfer yr asesiad a'r trefniadau monitro dilynol;<br>• gofynion unrhyw rwymedigaeth gynllunio<br><br>Bydd union gwmpas a chynnwys pob Asesiad Cludiant yn dibynnu ar raddfa, dwysedd teithio a nodweddion y cynnig. Yn gyffredinol dylai Asesiadau Cludiant ddarparu gwybodaeth ar y canlynol fan lleiaf: | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Atodiad D: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan18<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | • dangos hygyrchedd i'r safle drwy bob dull teithio gan gynnwys y newid moddol tebygol;<br>• mesurau i wella mynediad drwy gludiant cyhoeddus, cerdded a beicio a lleihau'r nifer ac effeithiau teithiau modur sy'n gysylltiedig â'r cynnig; dylai hyn gael ei ddarparu o fewn y Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth;<br>• manylion am unrhyw waith lliniaru priffyrdd angenrheidiol;<br>• y cynnydd tebygol yn lefel y traffig;<br>• nodi'r gwaith ymchwilio gwella priffyrdd y byddai ei angen.<br><br>Ar wahân i ddatblygiadau ar raddfa fwy lle yr ystyrir bod Asesiad Cludiant yn angenrheidiol, dylai datblygiad gyflwyno datganiad byr gyda'r cais cynllunio yn disgrifio hygyrchedd y safle trwy ddulliau teithio gwahanol ac unrhyw fesurau a gynigir i wella ei hygyrchedd. | |
| **Arolwg Coed** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM20 | Yn achos pob cais lle mae coed rhannol aeddfed (coeden sydd heb gyrraedd ei huchder/lledaeniad corun llawn) neu goed aeddfed (wedi cyrraedd eu huchder /lledaeniad corun llawn) neu berthi o fewn y safle a/neu goed oddi ar y safle o fewn 15m o safle'r cais (gan gynnwys coed stryd) waeth a fwriedir symud neu gadw'r coed.<br><br>Pob safle lle mae Gorchymyn Cadw Coed neu unrhyw gynigion. | Rhaid cyflwyno datganiad coed yn dangos sut mae'r cyfyngiadau coed ar y safle a gerllaw'r safle wedi cael eu cynnwys yn gywir yn y dyluniad, a sut y caiff y coed yma eu cadw heb eu difrodi yn ystod y gwaith adeiladu a meddiannu'r safle yn y dyfodol.<br><br>Rhaid i'r datganiad a gynhyrchir fod yn unol â'r canllawiau a bennwyd o fewn BS5837:2012 a bydd yn cynnwys:<br><br>• lluniad ac atodlen arolwg coed - bydd yr arolwg yn darparu data clir am y rhywogaeth, maint, oedran, cyflwr a oes defnyddiol disgwyliedig y coed. Bydd hefyd yn categoreiddio coed, grwpiau o goed neu goetiroedd o ran eu hansawdd a'u gwerth o fewn eu cyd-destun presennol ac nid o fewn cyd-destun y cynigion. | Polisi Cynllunio Cymru:<br>http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>BS5837:2012:<br>http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=000000000030213642<br><br>Y Gymdeithas Goedyddiaeth:<br>http://www.trees.org.uk/<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion:<br>http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Cynllun Cyfyngiadau Coedyddiaeth - cymorth i ddylunio'r cynllun sy'n dangos Ardaloedd Diogelu Gwreiddiau yn ogystal â chynrychioli'r effaith y bydd uchder a lledaeniad coed a gedwir yn ei chael ar y datblygiad. Bydd y Cynllun Cyfyngiadau Coedyddiaeth yn cynnwys gwybodaeth o'r arolwg coed yn ogystal â dangos y cyfyngiadau Ardaloedd Diogelu Gwreiddiau uwchben y tir (patrymau cysgod) ac o dan y tir sy'n gysylltiedig â'r coed.<br>• Cynllun Gwarchod Coed - lluniad wrth raddfa wedi'i gynhyrchu gan swyddog coedyddiaeth yn dangos cynllun y cynigion terfynol, y coed i'w cadw a manylion mesurau gwarchod y dirwedd o fewn y dull coedyddiaeth.<br>• Datganiad Dull Coedyddiaeth - yn amlinellu'r wybodaeth. | |
| **Holiadur Menter Wledig ac Arfarniad o Annedd Menter Wledig** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 6<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi S04 | Pob cais am annedd menter wledig. | Bydd cynigion am aneddiadau newydd yng nghefn gwlad agored yn cael eu caniatáu dim ond os oes angen clir amdanynt i gartrefu gweithiwr a gyflogir gan y fenter wledig sy'n cynnwys busnes cysylltiedig â thir, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth neu fusnes arall. Dylid cyflwyno gwybodaeth am y canlynol:<br><br>• prawf swyddogaethol (TAN 6, Adran 4.8)<br>• prawf amser (TAN 6, Adran 4.9)<br>• prawf ariannol (TAN 6, Adran 4.10)<br>• prawf annedd arall (TAN 6, Adran 4.11)<br>• prawf gofynion cynllunio eraill (TAN 6, Adran 4.12)<br>• copi o gyfrifon am y 3 blynedd diwethaf<br>• holiadur Annedd Menter Wledig wedi'i gwblhau<br><br>Os yw caniatâd yn cael ei roi ar gyfer annedd menter wledig bydd y caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod meddiannu. Gofynnir i'r | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6 adran 4.12 a 4.3 - 4.13: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=en<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Canllaw ymarfer: http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/120124redpracticeguideen.pdf<br><br>Holiadur Menter Wledig Cyngor Sir Ceredigion http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=10003<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y ddogfen | Pa wybodaeth a geisir | Cymorth pellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymgeisydd arwyddo Rhwymedigaeth Adran 106 o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a fydd yn clymu'r annedd newydd i'r fenter a/neu adeiladau, gan gynnwys unrhyw annedd arall (os oes). | |

## Tabl 2: Gofynion Lleol (lle y bo'n gymwys)

### Datblygiad Preswyl (yn cynnwys addasiadau, ailddefnyddio aneddiadau a adawyd ac ati)

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiad Tai Fforddiadwy** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 2<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau S01 - S05 | Pob cais am ddatblygiad preswyl lle y bydd un neu ragor o unedau preswyl ychwanegol yn cael eu creu. | Dylai'r datganiad hwn fod yn gynnyrch cyngor cyn ymgerisio a thrafodaethau gyda'r Swyddogion Rheoli Datblygu.<br>Mae canllawiau interim ar gael ar gyfer datblygwyr ynghylch Materion sy'n ymwneud â Thai Fforddiadwy. Bydd rhestr wirio a chyngor manylach ar gael ar gyfer datblygwyr ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol.<br><br>At ddibenion y polisi Tai Fforddiadwy sydd yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 a fabwysiadwyd diffinnir tŷ / annedd fel a ganlyn:<br><br>1. Yn berchen neu'n cael ei reoli gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, yr Awdurdod Lleol neu gorff enwebedig arall a gymeradwyir gan yr Awdurdod Lleol ac sydd ar gael at ddibenion rhentu cymdeithasol neu ganolradd neu i'w prynu neu unrhyw gyfuniadau o hynny; neu<br>2. Ar gael i'w prynu ar bris gostyngol, neu i'w rhentu am rent canolradd gan landlord preifat achrededig; ac yn amodol ar yr isod:<br>a) cyfyngir meddiannaeth i rai yr ystyrir eu bod mewn angen o ran tai;<br>b) nodweddion ffisegol yr anheddau'n adlewyrchu'r anghenion tai a nodir ar gyfer yr ardal yn briodol ac yn ddigonol; ac<br>c) amodau a rhwymedigaethau cynllunio sy'n ymwneud â phris gostyngol neu dai fforddiadwy preifat am rent canolradd gan gynnwys dull o sicrhau yr hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol pan fydd annedd yn newid dwylo, a bod y preswylwyr yn cydymffurfio â gofynion meddiannaeth yr annedd fforddiadwy dan sylw o ran y feddiannaeth wreiddiol a phob meddiannaeth ddilynol.<br><br>Dylai'r Datganiad nodi'r prisiau / rhenti presennol, y cyflenwad presennol a pha mor addas yw'r stoc dai i ateb yr anghenion sydd wedi eu nodi, dangos pam mae lefel a chymysgedd y tai fforddiadwy'n briodol o ystyried canfyddiadau'r Asesiad o'r | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan20<br><br>Canllaw Interim Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Anghenion Tai Lleol, neu anghenion sydd wedi eu seilio ar anghenion yr ardal leol.<br><br>Yn hynny o beth bydd angen dangos y cyflenwir cymysgedd o dai fforddiadwy ar y safle wedi eu costio ar 10% o Werth Datblygu Gros (amcangyfrif o'r pris gwerthu) y datblygiad cyfan wedi ei gwblhau. O dan amgylchiadau eithriadol, os na ellir cyflenwi unedau cyfan, cymerir balans y gwerth fel swm gohiriedig i'w ail-fuddsoddi mewn Tai Fforddiadwy mewn mannau eraill neu fel arall ceir 'swm ychwanegol' o gronfa'r Symiau Gohiriedig at gwblhau uned ychwanegol ar y safle. Os bydd yr ymgeisydd am herio dichonoldeb cyflawni'r gofynion polisi ar y safle, gallai'r datganiad osod nodweddion y safle a'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r safle ar sail llyfr agored i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Dylai'r datganiad gynnwys hefyd NAILL AI gydnabyddiaeth y codir Swm Gohiriedig o 10% sy'n ymwneud â Thai Fforddiadwy ar gynnig dilynol parthed Materion a Gedwir yn Ôl (os mai cais amlinell ydyw) NEU brisiad ffurfiol yn manylu ynghylch Gwerth Datblygu Gros y cynllun terfynol. Dylai hynny gynnwys manylion y gwerthoedd a briodolir i fathau/i feintiau gwahanol yn y cynnig.<br>Ac os yw'n berthnasol, gadarnhad o'r trefniadau trosglwyddo o'r datblygwr gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu Gynllun Achredu Landlordiaid Cymru | |
| **Asesiad addasu ar gyfer newid defnydd adeiladau gwledig neu adeiladau cymunedol** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 6<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi LU22 | Ceisiadau i ailddefnyddio, addasu neu estyn adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl neu fusnes.<br><br>Newid defnydd adeiladau sy'n gyfleuster cymunedol. | Dylai datganiad/asesiad ar gyfer yr addasiad gael ei gynnwys ynglŷn â:<br><br>• sut mae'r cynnig yn parchu cymeriad a graddfa'r adeilad<br>• sut mae'r cynnig yn llwyddo i beidio â chael effaith andwyol annerbyniol ar bentrefi cyfagos neu ar gymeriad ac amwynder gweledol yr ardal leol ac addasrwydd yr isadeiledd mynediad<br>• sut mae pob ymdrech wedi methu â sicrhau defnydd busnes addas, a datganiad o'r ymdrechion a wnaed i wneud hynny. Er enghraifft, cyfeirio at hysbysebion asiant tai, ymdrechion drwy wefannau ffurfiol ac anffurfiol, drwy sefydliadau ffermio a busnes. Dylid cynnwys manylion am y cyfnod hysbysebu | Polisi Cynllunio Cymru:<br>http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6 paragraffau 3.2, 3.3 a 3.5:<br>http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=en<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion:<br>http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | • y posibilrwydd gwael o farchnata'r adeiladau, gyda rhesymau, os yw'r ymgeisydd yn teimlo mai dyma yw'r achos<br>• yr ymdrechion marchnata a wnaed, neu'r farn broffesiynol ar y posibilrwydd o'i farchnata.<br><br>Mae'r rhagdybiaeth yn erbyn newid defnydd adeiladau cymunedol oni bai:-<br><br>1. bod anghenion y gymuned yn cael eu bodloni gan ddarpariaeth arall sy'n bodoli o fewn yr anheddiad, aneddiadau cyfagos o fewn y grŵp anheddiad;<br>2. gellir dangos bod y lefel bresennol o ddarpariaeth gymunedol yn amhriodol neu'n fwy nag anghenion y gymuned yn yr anheddiad neu'r grŵp anheddiad;<br>3. nid yw'r defnydd presennol yn hyfyw mwyach ac ni ellir ailsefydlu hyfywedd y defnydd cyfredol drwy geisio defnydd lluosog neu rannu defnydd o'r adeilad at ddibenion cyhoeddus a/neu fasnachol i wasanaethu'r gymuned. (CDLl polisi LU22). | |
| **Datganiad Math o Dŷ** | Polisi Cynllunio Cymru<br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion<br>Polisi LU02 | Pob cais am ddatblygiad preswyl newydd | Dylai datganiad gael ei gynnwys sy'n esbonio sut mae'r cymysgedd a'r math yma o dai yn adlewyrchu anghenion yr ardal leol a'r Arolwg Anghenion Tai. | Polisi Cynllunio Cymru:<br>http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Arolwg Anghenion Tai Lleol Cyngor Sir Ceredigion<br>http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=36245&langtoken=cym<br><br>Cynllun Lleol Ceredigion:<br>http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Cartrefi Gydol Oes** | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion<br>Polisi LU02 | Pob datblygiad preswyl newydd | Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad sy'n amlinellu'n fanwl sut mae'r Safonau Cartrefi Gydol Oes 16 yn cael eu bodloni o fewn y datblygiad.<br>Dylai cynlluniau llawr hefyd dangos y gofynion yn glir lle y bo'n briodol.<br>Mae Cartrefi Gydol Oes wedi cynhyrchu amryw o ddogfennau a fydd yn helpu datblygwyr. | Gwefan Safonau Cartrefi Gydol Oes<br>http://www.lifetimehomes.org.uk/<br><br>Cartrefi Gydol Oes i Weithwyr Proffesiynol<br>http://www.lifetimehomes.org.uk/p |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Os nad oes modd bodloni pob un o'r 16 maen prawf dylai datganiad gael ei gynnwys o fewn y cais cynllunio i esbonio hyn mewn perthynas â phob maen prawf penodol. | ages/for-professionals.html<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

## Yr Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfiawnhad Dymchwel** | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995<br><br>Cylchlythyr 31/95: Rheolaethau Cynllunio dros Ddymchwel (Swyddfa Gymreig, 1995)<br><br>Polisi Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)<br><br>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth | Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw o'r dull dymchwel ar gyfer y mathau canlynol o ddymchwel:<br><br>1. unrhyw adeilad rhestredig<br>2. unrhyw adeilad/strwythur e.e. wal, garej ac ati mewn ardal gadwraeth<br>3. unrhyw adeilad sy'n heneb restredig<br>4. unrhyw dŷ annedd<br>5. unrhyw adeilad annomestig sy'n ffinio tŷ annedd<br>6. unrhyw adeilad domestig neu annomestig annibynnol gyda chyfaint o fwy na 50 metr ciwbig (mesuriad allanol) | Dylai datganiad gael ei gynnwys yn esbonio:<br><br>• sut bydd y gwaith dymchwel yn digwydd;<br>• ble fydd y deunyddiau'n cael eu dyddodi; a<br>• sut caiff y safle ei adfer ar ôl dymchwel.<br><br>O fewn Ardaloedd Cadwraeth mae'r ACLl yn ffafrio cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf cyffredinol â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig. Mewn achosion lle nad yw adeilad yn gwneud llawer neu ddim cyfraniad o'r fath, fel rheol bydd yr ACLl yn gofyn am wybodaeth lawn ynghylch yr hyn y bwriedir ei wneud â'r safle ar ôl dymchwel.<br><br>Bydd angen datganiad o gyfiawnhad yn unol â pharagraff 69 o Gylchlythyr 61/96. Dylai'r cyfiawnhad:<br><br>• esbonio'r dyluniad a'r ystyriaethau mynediad a arweiniodd at benderfynu mai'r cynnig hwn yw'r ateb mwyaf priodol<br>• esbonio sut y mae'r cynigion yn ystyried Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, Rhan 31: http://www.legislation.gov.uk/uksi/1995/418/schedule/2/made<br><br>Cylchlythyr 31/95: Rheolaethau Cynllunio dros Ddymchwel: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular3195/?lang=en<br><br>Polisi Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/793/contents/made<br><br>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth: http://www.cpat.org.uk/resource/circular/woc61-96.pdf<br><br>Nodyn Canllaw 2 Cyngor Sir Ceredigion: Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=21569 |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiadau Treftadaeth gan gynnwys nodweddion hanesyddol ac archeolegol** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau: DM06, DM07, DM17 a DM19 | Pob cais am:<br><br>• ganiatâd adeilad rhestredig<br>• caniatâd ardal gadwraeth<br>• cynigion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Henebion Rhestredig, safle archeolegol neu nodwedd hanesyddol arall, neu'n eu ffinio<br>• lle y cynigir symud tir mewn Ardal o Botensial Archeolegol<br>• cynigion sy'n effeithio ar safle Heneb Restredig<br>• cynigion sy'n effeithio ar barciau a gerddi cofrestredig | Bydd cwmpas a graddfa'r maint o fanylion sydd eu hangen mewn Datganiad Treftadaeth yn amrywio yn ôl amgylchiadau arbennig pob cais.<br><br>Dylai ddarparu gwybodaeth am y meysydd allweddol canlynol:<br><br>• disgrifiad o'r ased treftadaeth a'i leoliad<br>• asesiad o arwyddocâd yr adeilad/ardal<br>• esboniad o'r cysyniad dylunio ar gyfer y datganiad arfaethedig<br>• disgrifio effaith uniongyrchol y datganiad arfaethedig ar yr adeilad/ardal<br>• disgrifio'r effaith ar y safle<br>• disgrifio'r effaith ar archeoleg | Polisïau Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth: http://www.cpat.org.uk/resource/circular/woc61-96.pdf<br><br>CADW: http://cadw.wales.gov.uk<br><br>Canllaw i arfer da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Cynllunio a Datblygu: http://cadw.wales.gov.uk/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_EN.pdf<br><br>Mapio Tirweddau Hanesyddol: http://data.gov.uk/dataset/the-registered-landscapes-of-oustanding-historic-interest-in-wales-registered-landscapes-of-spe<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Nodyn Canllaw 3 Cyngor Sir Ceredigion: Datganiad Treftadaeth: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=21569 |
| **Arolwg Strwythurol/** | Cynllun Datblygu Lleol | Bydd rhaid cael arolwg strwythurol o'r adeilad os | Mae'n rhaid i'r datganiad dull roi manylion am y camau ar gyfer addasu'r adeilad a bydd yn cynnwys | |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiad Dull** | Ceredigion Polisïau: LU09, DM06, DM07 | cynigir dymchwel neu addasu:<br>1. Adeiladau Rhestredig<br>2. Adeiladau o fewn Ardal Gadwraeth (sydd heb eu rhestru) sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth<br>3. Addasu adeiladau | argymhellion y peiriannydd strwythurol.<br><br>Bydd yr arolwg strwythurol wedi cael ei gynnal ddim cynharach na 6 mis cyn cyflwyno'r cais. | |
| **Adroddiad Geotechnegol** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM22 | Bydd angen yr adroddiad hwn os oes materion posibl ynghylch sefydlogrwydd tir. | Rhaid cyflwyno adroddiad gyda gwybodaeth am y canlynol:<br>• unrhyw ansefydlogrwydd a risgiau tir<br>• y dulliau lliniaru a gynigir<br><br>Mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei lunio gan unigolyn cymwysedig. | Polisïau Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

## Yr Amgylchedd (Man Agored, Tirwedd)

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Arolwg ac Asesiad Daearegol** | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion DM16 | Bydd Arolwg ac Asesiad Daearegol yn ofynnol os oes posibilrwydd y gallai'r datblygiad gael effaith negyddol arwyddocaol ar geoamrwyiaeth (yn arbennig RIGS - sef Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol). Os yw effeithiau arwyddocaol yn debygol, rhaid cael mesurau lliniaru/digolledu fel rhan o'r cynnig i gadw unrhyw niwed i'r lleiaf posibl. Mewn rhai achosion, efallai na fydd lliniaru a digolledu yn bosibl/ddigonol ac felly gellir gwrthod y cais. Gall fod modd mewn rhai sefyllfaoedd i osgoi arolygon ac felly dim ond cynnwys lliniaru/digolledu yn y datblygiad; fodd bynnag, dylid trafod hyn a'i gytuno | Mae dyletswydd ar yr awdurdod cynllunio i ystyried gwarchod geoamrywiaeth wrth benderfynu cais cynllunio; mae hyn yn cynnwys ystyried gwarchod rhywogaethau a safleoedd sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1982 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, yn ogystal â dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gweledol.<br><br>Dylai'r **Arolwg a'r Asesiad** gael eu cynnal a'u paratoi gan unigolion cymwys sydd â chymwysterau a phrofiad addas a rhaid iddynt gael eu cynnal ar amser ac yn ystod mis priodol o'r flwyddyn, mewn tywydd addas a chan ddefnyddio canllawiau/dulliau arolwg cenedlaethol cydnabyddedig sydd ar gael (oni bai bod cyfiawnhad rhesymol gan yr ecolegydd dros ddefnyddio'r dull hwnnw). | Cyngor Cefn Gwlad Cymru: http://www.ccgc.gov.uk/landscape--wildlife/geological-gems/geoconservation/geosites/rigs.aspx<br><br>GeoConservationUK: http://wiki.geoconservationuk.org.uk/index.php5?title=Main_Page<br><br>Grŵp RIGS Canol Cymru http://www.geologywales.co.uk/central-wales-rigs/ |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | gyda Swyddog Mwynau a Gwastraff yr ACLl. | | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Swyddog Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir Ceredigion: 01545 572135 |
| **Cynllun Tirlunio** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 12<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau: DM10, DM17 a DM18 | Pob cais, ac eithrio deiliad tŷ | Dylai cynlluniau tirlunio ffurfio rhan o'r cysyniad dylunio ar gyfer y safle, ac nid cael eu gweld fel proses ar wahân neu ôl-ystyriaeth.<br><br>Dylid defnyddio'r Datganiad Dylunio a Mynediad i gyfleu egwyddorion cyffredinol y dyluniad a sut mae'r dirwedd wedi effeithio arno.<br>Dylai cynlluniau tirlunio gynnwys:<br>• arolwg o nodweddion presennol y safle<br>• manylion am nodweddion presennol y dirwedd, e.e. coed, perthi, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffigol, amwynder neu ddiddordeb cadwraeth natur i'w gadw<br>• adnabod a chyfiawnhad dros symud y nodweddion hynny fel rhan o'r cynnig a rhoi manylion am unrhyw beth sy'n cael ei roi yn eu lle<br>• manylion am unrhyw dirlunion newydd (rhywogaethau, lleoliad, maint planhigyn) gyda rhaglen o blannu'n raddol<br>• manylion am dirlunio wyneb caled athraidd.<br><br>Dylai ceisiadau cynllunio amlinellol gynnwys o leiaf gynllun tirlunio ar ffurf braslun wrth raddfa, yn ddigonol i gyfleu'r egwyddor fras o'r:<br>• hyn a fwriedir ynghyd â faint o dir sydd i'w neilltuo ar gyfer triniaeth dirlunio. Mewn achosion o'r fath bydd y gofyniad am unrhyw gynllun tirlunio manwl dilynol yn fater wedi'i gadw yn ôl<br>• bydd rhaid i bob cynllun tirlunio gynnwys atodlen cynnal a chadw dwy flynedd. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Asesiad o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM17 | Bydd Asesiad o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol yn ofynnol ar gyfer y ceisiadau canlynol:<br>• tyrbinau gwynt<br>• fferm solar<br>• telegyfathrebu<br>• mastiau teledu<br>• unrhyw gais arall y mae'r ACLl yn penderfynu sy'n cael effaith ar y dirwedd. | Asesiad o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol i gynnwys:<br>• Asesiadau o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol gyda chyfeiriad at LANDMAP<br>• Dadansoddiad golygfan<br>• Parth Gweledd Damcaniaethol neu Barth Dylanwad Gweledol<br>• Asesiad o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol Cronnus<br>• Ffotograffau o'r safle presennol<br>• Ffotograffau/ffotogyfosodiadau o'r tyrbin a'i leoliad | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br>LANDMAP: http://landmap.ccw.gov.uk/map/Map.aspx<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Arolwg Man Agored (presennol)** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 16<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi LU22 | Pob cais sy'n effeithio ar fannau agored a thir hamdden presennol. | Dylai Asesiad Man Agored ar gyfer datblygu ar fan agored presennol geisio dangos sut mae'r datblygiad yn bodloni polisi LU22 y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyngor yn gwrthwynebu colli man agored presennol oni bai:<br>• bod darpariaeth arall o werth gwell yn cael ei gynnig. Dylai hyn gael ei leoli yn agos at y ddarpariaeth bresennol.<br>• nid oes angen y man agored ar y gymuned.<br>• nid yw'r man agored yn hygyrch mwyach.<br><br>Dylai'r asesiad gynnwys cynlluniau sy'n dangos unrhyw ardaloedd o fan agored presennol neu arfaethedig. Mae'r Cyngor wedi asesu'r ddarpariaeth man agored o fewn y Canolfannau Gwasanaeth fel y'i diffinnir gan y CDLl. Refer to Open Space Assessment: Service Centres available from the Council website.<br><br>Fel rhan o'r cais mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu datganiad gyda manylion am y ddarpariaeth bresennol a sut y caiff unrhyw golled ei digolledu. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan16e<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Asesiad Man Agored: http://www.ceredigion.gov.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=36241&langto |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ken=cym |
| **Cynllun Man Agored Arfaethedig** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 16<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi LU24 | Mae'n rhaid i bob safle tai dynodedig o fewn y CDLl ddarparu man agored.<br><br>Bydd rhaid i bob safle tai heb ei ddynodi a hap-safle sy'n creu cyfanswm o 10 neu ragor o ystafelloedd gwely ddarparu man agored. | Dylai'r ddarpariaeth man agored naill ai gael ei dangos fel cynllun ar wahân neu fel rhan o gynllun dylunio neu dirlunio. Dylai'r cynllun ddangos yn glir:<br><br>• maint arwynebedd y man agored<br>• natur y man agored, e.e. man gwyrdd amwynder naturiol, man gwyrdd naturiol hygyrch cymunedol, lle chwarae naturiol heb offer neu le chwarae naturiol gydag offer<br>• planhigion/offer o fewn y man agored<br>• sut caiff y man agored ei reoli a'i gynnal.<br><br>Mae canllawiau interim yn rhoi gwybodaeth ar sut i gyfrifo faint o fan agored sydd ei angen a'r math o fan agored sydd ei angen. Caiff hwn ei ddisodli gan Ganllawiau Cynllunio Atodol maes o law. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Comisiwn Coedwigaeth http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7LSEHW<br><br>Play England: http://www.playengland.org.uk/<br><br>Canllaw Interim Cyngor Sir Ceredigion: Man Agored |
| **Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)** | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br><br>Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM13 | Pob datblygiad newydd preswyl a dibreswyl | Hyd nes bod y Safonau SUDS Cenedlaethol ar gael, bydd yr ACLl yn gofyn i ddatblygwr ddangos sut mae SUDS wedi cael ei gynnwys mewn cynigion datblygu. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys:<br><br>• defnyddio wynebau athraidd (megis graean neu bafin bloc athraidd)<br>• mannau ymdreiddiad (megis suddfannau dŵr) a<br>• defnyddio basnau a phyllau i gadw dŵr ffo ar yr wyneb<br><br>Dylai gwybodaeth gael ei chyflwyno i'r Awdurdod naill ai o fewn adroddiad neu ei nodi'n glir ar gynlluniau priodol. | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents |

## Cludiant

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiad Darpariaeth Barcio** | Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion DM03 | Pob Mater Wedi'i Gadw yn ôl a Cheisiadau Llawn | Dylid darparu gwybodaeth am y canlynol:<br>• nodi cyfanswm y llefydd parcio presennol<br>• cyfanswm y llefydd parcio arfaethedig<br>• llefydd garej<br>• os na fydd unrhyw lefydd parcio yn cael eu darparu dylech ddangos ar eich cynlluniau neu ddisgrifio mewn datganiad ategol ble y caiff y cerbydau eu parcio neu pa ddulliau teithio eraill sydd ar gael | |
| **Cynllun Teithio** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 18<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM03 | Dylai Cynllun Teithio gael ei gyflwyno ochr yn ochr â cheisiadau cynllunio sy'n debygol o gael goblygiadau teithio sylweddol a'r rhai sy'n cynnwys swyddi, siopa, hamdden, gwasanaethau a chyfleusterau ysgol, a lle mae teithiau ychwanegol sylweddol yn debygol neu os bydd effeithiau sylweddol ar yr ardal o gwmpas. | Dylai Cynllun Teithio:<br>• amlinellu sut y caiff goblygiadau cludiant y datblygiad eu rheoli er mwyn sicrhau'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lleiaf posibl.<br>• cael strategaeth ar gyfer ei weithredu sy'n briodol ar gyfer y datblygiad a gynigir.<br>• nodi Cydlynydd y Cynllun Teithio, y trefniadau rheoli ar gyfer y cynllun, e.e. grŵp llywio a'r amserlen datblygu. Dylai'r strategaeth hefyd gynnwys gweithgareddau ar gyfer marchnata a hyrwyddo'r Cynllun i feddianwyr, defnyddwyr, ymwelwyr a thrigolion y safle.<br><br>Yn y gorffennol mae Cynlluniau Teithio wedi canolbwyntio ar hyrwyddo dulliau teithio heb gar. Mae Cynllun Cludiant yn gyfle nid yn unig i ailadrodd llwyddiant blaenorol o'r fath ond hefyd i gryfhau integreiddio'r mesurau hyn i ddyluniad ffisegol y datblygiad. Mae gan Gynlluniau Teithio rôl i'w chwarae o hyd oherwydd gallant fod yn gydran benodedig mewn Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth yn enwedig ar gyfer hap-ddatblygiad pan na wyddys pwy yw'r defnyddiwr terfynol. Gall mesurau megis gwelliannau i gludiant cyhoeddus, darpariaeth i gerddwyr a beicwyr, a chynlluniau rhannu ceir fod yn addas i'w cynnwys yn y pecyn. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Atodiad D: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan18<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Gwasanaeth Priffyrdd: 01545 572572 |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Dylai Cynlluniau Teithio gyfeirio at y targedau ar gyfer lleihau traffig ffyrdd a hybu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol lleol.<br><br>Gellir defnyddio canllawiau arfer gorau amrywiol ar Gynlluniau Teithio i lywio'r Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth. (Gweler para 9.7 o TAN 18 Cludiant)<br><br>Gall Cynlluniau Teithio gael eu paratoi, yn unigol neu ar y cyd, gan berchnogion a gweithredwyr datblygiadau presennol neu arfaethedig. Gall Cynlluniau Teithio ar y Cyd fod yn rhan o Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth, a dylai Cynlluniau Teithio a Strategaethau Gweithredu Trafnidiaeth amlinellu'r cynigion ar gyfer darparu patrymau teithio mwy cynaliadwy. | |

## Iechyd yr Amgylchedd

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Asesiadau Ansawdd Aer** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM22 | Ceisiadau a fydd yn creu allyriadau o lygrwyr i'r aer y mae amcan ansawdd aer cenedlaethol ar eu cyfer, neu y gall fod effaith arwyddocaol fel arall ar ansawdd aer lleol.<br><br>Dau ddiffiniad bras o ddatblygiadau sy'n debygol o effeithio ar ansawdd aer yw:<br><br>1. datblygiadau diwydiannol a/neu fasnachol a;<br>2. datblygiadau sy'n cynhyrchu traffig ychwanegol arwyddocaol.<br><br>Gallai gwybodaeth ansawdd aer fod yn ofynnol os yw nifer o geisiadau | Cynghorir ymgeiswyr i geisio arbenigedd arbenigol i drafod eu cynigion â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn gynnar yn y broses gynllunio.<br><br>Dylai'r Asesiad ddangos y newid yn ansawdd yr aer o ganlynid i'r datblygiad arfaethedig ac amlinellu'r mesurau lliniaru priodol fel y bo angen.<br><br>Dylai ceisiadau ar gyfer datblygiadau a fydd yn denu symudiadau traffig ychwanegol arwyddocaol gynnwys gwybodaeth fanwl. Dylai hyn gynnwys:<br><br>• disgrifiad o'r safle a'r lleoliad<br>• asesiad o'r ansawdd aer presennol yn yr ardal<br>• os yw modelu ansawdd aer yn cael ei ddefnyddio yn yr asesiad , disgrifiad llawn o'r fethodoleg | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ceredigion: 01545 572105 |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | unigol yn cael eu derbyn o fewn ardal. Ar eu pennau eu hunain, efallai na fydd y ceisiadau hyn yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd aer, ond gall effaith gyfunedig yr allyriadau o'r datblygiadau fod yn arwyddocaol. | • manylion am y mathau a'r symiau o allyriadau ynghyd â nodweddion ffisegol y ffynhonnell, (er enghraifft: uchder y simnai, diamedr, tymheredd allyriadau, neu ragfynegi llif traffig, mathau o gerbydau, ffactorau allyriadau ac ati)<br>• asesiad o'r rhyngweithio rhwng yr allyriadau o'r cynnig â ffynonellau allyriadau eraill yn yr ardal.<br><br>Dylai datblygwyr ystyried y canlynol yn y cam dylunio:<br><br>• gofyn i'r meddianwyr arfaethedig a meddianwyr y datblygiad yn y dyfodol ymrwymo i Gynllun Teithio<br>• cynnwys isadeileddau cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded yn y camau cychwynnol<br>• sicrhau bod meddianwyr arfaethedig a meddianwyr y datblygiad yn y dyfodol yn defnyddio fflydau tanwydd glân<br>• gosod mesurau i gadw allyriadau i'r lleiaf posibl, ynghyd ag offer monitro ansawdd aer lle y bo'n briodol<br>• gweithredu systemau rheoli i liniaru allyriadau yn ystod y cam adeiladu<br>• yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cymharu yn erbyn yr amcanion deuocsid nitrogen yn unig; fodd bynnag, dylai llygrwyr eraill, yn arbennig PM10 gael eu hystyried hefyd. | |
| **Asesiad Carthion Budr a Chyfleustodau** | Polisi Cynllunio Cymru:<br><br>Cylchlythyr 3/99:<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM12 | Pob cais mewn ardaloedd lle mae llifogydd carthion presennol yn digwydd.<br><br>Pob cais sy'n cynnwys gwaredu gwastraff masnach neu waredu elifion carthion budr ac eithrio i'r garthffos gyhoeddus.<br><br>Pob cais ar gyfer systemau carthion | Dylai asesiad carthion budr, yn unol ag Atodiad A Cylchlythyr 3/99, gynnwys ystyriaeth lawn a manwl o'r ffactorau canlynol:-<br><br>1. gweithredu'n groes i arferion cydnabyddedig<br>2. effaith andwyol ar ffynonellau/adnoddau dŵr<br>3. perygl neu niwsans iechyd<br>4. niwed i ddyfroedd a reolir<br>5. difrod i'r amgylchedd ac amwynder<br>6. gorlwytho gallu presennol yr ardal | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Cylchlythyr 3/99: https://www.gov.uk/government/publications/planning- |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | heb fod ar y prif gyflenwad. | 7. absenoldeb arllwysfeydd addas<br>8. nodweddion amsugniad anaddas<br>9. tabl llanw uchel<br>10. lefelau dŵr daear yn codi<br>11. llifogydd<br><br>Mewn achosion lle y gwaredir elifion carthion budr heblaw i'r garthfos gyhoeddus, bydd angen asesiad draenio carthion budr llawnach gan gynnwys manylion am y dull storio, trin a gwaredu.<br><br>Yn achos ceisiadau ar gyfer systemau carthion heb fod i'r prif gyflenwad, dylai datblygwyr ar y cam dylunio prosiect, ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgymerwyr Dŵr a Charthion eraill yn gynnar yn y broses. | requirement-for-non-mains-sewerage-including-septic-tanks-in-new-development-circular-03-1999<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru: http://naturalresourceswales.gov.uk/<br><br>Dŵr Cymru Welsh Water: http://www.dwrcymru.com/<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Asesiad Halogi Tir** | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990<br><br>Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM22 | Pob cais (ac eithrio deiliaid tai, newid defnydd, blaenau siop, hysbysebion) lle y cynigir datblygiad newydd ar dir sydd wedi neu a allai gael ei effeithio gan halogi. | Y prif leoliadau ar gyfer halogi tebygol yw cyn weithfeydd nwy, tanerdai, ffowndrïau a safleoedd tirlenwi a hefyd defnyddiau tir presennol megis ierdydd coed, lladd-dai a safleoedd gyda chyfleusterau storio petrolewm.<br><br>Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru bydd rhaid i'r ACLl gael yr wybodaeth ganlynol fel rhan o'r cais cynllunio:<br>• tystiolaeth o ymchwiliad ac asesiad risg manwl<br>• gwybodaeth am y mesurau adfer a gynigir<br>• gwybodaeth am yr effeithiau posibl y gallai adfer y tir eu cael ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol | Deddf Diogelu'r Amgylchedd http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents<br><br>Polisi Cymru adran 13.7 http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Adroddiad Tirlenwi** | Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002 | Pob datblygiad lle y cynigir tirlenwi fel rhan o'r datblygiad. | Dylai ceisiadau ddarparu digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod cynllunio gwastraff i gyflawni ei ofynion o dan Reoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002. Gall yr wybodaeth hon gael ei darparu fel rhan o'r Datganiad | Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002: http://www.legislation. |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Amgylcheddol. | gov.uk/uksi/2002/1559/contents/made |
| **Asesiadau Goleuo** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM22 | Pob datblygiad sy'n cynnig goleuo allanol, e.e. cynigion llifoleuadau, blaenau siop ac ati. | Bydd yr asesiad yn cynnwys:<br>• cynllun yn cynnwys gogwydd trawstiau a gollyngiad goleuni<br>• cynllun cyfuchlin yn dangos gollyngiad llorweddol a fertigol goleuni o'r safle<br>• dyluniad goleuadau allanol arfaethedig<br>• oriau defnydd pan fyddai'r golau wedi'i gynnau<br>• cynnal a chadw yn y dyfodol<br><br>Dylai'r asesiad ddangos bod:<br>• nodwedd weledol yr amgylchedd adeiledig a naturiol a buddiannau bywyd gwyllt heb eu heffeithio'n annerbyniol gan y golau<br>• ni fydd unrhyw ddallu neu unrhyw beth i dynnu sylw cerddwyr neu yrwyr sy'n defnyddio llwybrau cerdded a ffyrdd cyfagos<br>• os yw'r golau wedi'i leoli ger eiddo preswyl, bod yr oriau goleuo wedi'u rheoli<br>• ni fydd unrhyw niwed i amwynder preswyl o ganlyniad i'r golau<br>• mae systemau golau wedi'u cynllunio i gyfeirio golau i lawr er mwyn cadw'r gollyngiad golau a thywynnu awyr i'r lleiaf posibl | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Datganiad Awyru/ Echdynnu** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM22 | Pob cais ar gyfer coginio bwyd (ar fwy na graddfa ddomestig)<br><br>Pob cais ar gyfer gweithgareddau masnachol a diwydiannol sy'n cynhyrchu mygdarthau, anweddau, nwyon ac aroglau, mater gronynnol neu sy'n defnyddio cemegau anweddol.<br><br>Pob cais am ddatblygiad tai mawr (gan gynnwys fflatiau) a datblygiadau | Dylai'r wybodaeth gynnwys:<br>• gweddluniau i ddangos safle, lleoliad ac uchder (os yw'n allanol)<br>• gorffeniadau a ffitiadau allanol arfaethedig<br>• manylebau'r gweithgynhyrchwr gan gynnwys gofynion cynnal a chadw<br>• cyflymder pibell wacáu yn y terminws<br>• trefniadau distewi<br>• dulliau ynysu dirgryniad<br>• perfformiad acwstig ffan echdynnu (gan gynnwys | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cynllun Datblygu |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | masnachol. | allyriadau sŵn o ran pŵer sŵn a lefelau pwysau sŵn, a sbectra amledd band cyfyng a/neu fand 1/3 wythfed<br>• crynoadau aroglau a/neu ronynnol a ragfynegir<br>• gwaith lliniaru/adfer<br><br>Os nad yw cais yn cynnwys yr wybodaeth a amlinellir yn y rhestrau gwirio dilysu hyn, dylai'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad ysgrifenedig gyda'r cais i esbonio pam y mae'n ystyried nad yw'n briodol yn yr amgylchiadau arbennig hynny. Mewn rhai achosion, dim ond rhai rhannau o asesiad arbennig sydd eu hangen a dylid cyfiawnhau hyn yn y datganiad ategol.<br><br>Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn dangos pam nad yw gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu er mwyn osgoi oedi; gallai methu â gwneud hynny achosi oedi wrth ystyried eich cais. | Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Cynllun Rheoli Gwastraff y Safle** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 21<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi LU32 | Pob cais dros 0.5 hectar mewn arwynebedd neu ddatblygiad sy'n creu mwy na 1,000 metr sgwâr o le llawr ychwanegol.<br><br>Pob gwaith dymchwel. | Dylai Cynllun Rheoli Gwastraff y Safle:<br>• nodi maint a'r math o ddeunyddiau sydd i'w dymchwel a/neu eu cloddio<br>• adnabod cyfleoedd i ailddefnyddio ac adfer deunyddiau<br>• dangos sut y bydd gwaredu gwastraff oddi ar y safle yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl a'i reoli<br>• dangos y dull dymchwel a ble y caiff deunyddiau gwastraff eu dyddodi | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan21<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

## Ynni Adnewyddadwy

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiadau Cefnogi Tyrbinau Gwynt** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisïau LU25, LU26, DM17-19 | Pob cais am dyrbin gwynt | Yn ogystal â'r gofynion eraill a nodir yn y ddogfen hon bydd rhaid i gais am dyrbin gwynt gynnwys y canlynol:<br>• Adroddiad y Weinyddiaeth Amddiffyn os oes materion diogelwch awyr<br>• Asesiad Cysgodion Symudol<br>• Asesiad o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol<br>• Asesiad o'r effaith weledol gronnus<br>• Datganiad Cynhyrchu Ynni<br>• Datganiad ynni adnewyddadwy amgen<br>• Gwybodaeth am ddadgomisiynu'r tyrbin ar ddiwedd ei fywyd gweithredol<br>• Manylion a lliw y model<br>• Manylion am y Model<br><br>Cynllun Rheoli Traffig<br>• Cynllun Rheoli Traffig ar gyfer dosbarthu llwythi annormal (bydd rhaid i chi siarad â'r Adran Briffyrdd i bennu a yw'r hyn rydych yn ei gynnig yn cael ei ystyried yn llwyth annormal)<br><br>• Data/lliniaru derbyniad teledu | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Llywodraeth Cymru - cynhyrchu eich trydan eich hun: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/generaterenewable/?lang=en<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan8<br><br>LANDMAP: http://landmap.ccw.gov.uk/map/Map.aspx<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion |
| **Datganiadau** | Cynllun Datblygu | Pob cais am barciau solar. | Yn ogystal â'r gofynion eraill a nodir yn y ddogfen hon | Llywodraeth Cymru - |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi Parc Solar** | Lleol Ceredigion Polisïau LU25, LU26, DM17-19 | | bydd rhaid i gais am barc solar gynnwys y canlynol:<br>• graddiant y safle a'r tirffurf o gwmpas<br>• uchder a chynllun y paneli<br>• lliw fframiau amgylchynol y paneli<br>• trin y tir o dan a rhwng y paneli, er enghraifft i dyfu cnydau, pori da byw neu osod chwilfriw (mulch) i leihau gwaith cynnal a chadw<br>• ffensys perimedr<br>• asesiadau o Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol gyda chyfeiriad at LANDMAP | Cynhyrchu eich trydan eich hun: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/generaterenewable/?lang=en<br><br>LANDMAP: http://landmap.ccw.gov.uk/map/Map.aspx |

## Gofynion Eraill

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfiawnhad Datblygiad/ Amaethyddol Coedwigaeth** | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 | Cymeradwyaeth ymlaen llawn a chais cynllunio llawn ar gyfer datblygiadau amaethyddol/coedwigaeth | Datganiad i gyfiawnhau bod y datblygiad yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth o fewn yr uned honno. | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy |
| **Asesiad Golau Dydd/Golau Haul** | Nodyn Cyngor Technegol 12 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi DM06 | Ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o greu colli golau dydd/golau haul i feddianwyr a defnyddwyr cyfagos. Mae hyn yn cynnwys gerddi cysylltiedig neu geisiadau am le amwynder. | Mae'n rhaid i'r datganiad gynnwys datganiad ysgrifenedig a chynlluniau sy'n dangos y lefelau presennol a'r lefelau arfaethedig o olau dydd a/neu olau haul. Dylai'r datganiad hefyd gynnwys lluniadau/ffotograffau lle y bo'n gymwys, gan ddangos y safle presennol a'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Mae'r hawliau i oleuni yn faterion sifil rhwng cymdogion. Mae hawliau i oleuni yn annibynnol ar y system gynllunio. Hyd yn oed os yw caniatâd cynllunio wedi cael ei roi, dylid gofalu i beidio ag amharu ar hawliau i oleuni sy'n cael eu mwynhau gan adeiladau cyfagos. | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12:<br><br>http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/;jsessionid=C2D75FFE41F676333EF773FB1A403D46?lang=en<br><br>Y Porth Cynllunio http://www.planningp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Awdurdodau Lleol yn tueddu i fabwysiadu canllawiau amrywiol ar gyfer asesu materion hawl i oleuni. Y rheol ongl 45 gradd yw'r un mwyaf cyffredin a ddefnyddir i asesu. Gall edrych dros a phreifatrwydd fod yn faterion eraill i'w hystyried.<br><br>Fel arfer mae'r rheol ongl 45 gradd yn cynnwys tynnu llinell o ganol sil y ffenestr a allai gael ei heffeithio gan estyniad cymydog ar ongl o 45 gradd.<br><br>Fel canllaw cyffredinol fel rheol mae estyniadau 2 llawr yn dderbyniol dim ond os oes modd cynnal ongl 45 gradd o olwg clir o ffenestri ystafelloedd cyfanheddol mewn adeiladau cyfagos ar gyfer asesu materion hawl i oleuni. Y rheol 45 gradd yw'r un mwyaf cyffredin a ddefnyddir i asesu. Gall edrych dros a phreifatrwydd fod yn faterion eraill i'w hystyried.<br><br>Fel arfer mae'r rheol ongl 45 gradd yn cynnwys tynnu llinell o ganol sil y ffenestr a allai gael ei heffeithio gan estyniad cymydog ar ongl o 45.<br><br>Fel canllaw cyffredinol fel rheol mae estyniadau 2 llawr yn dderbyniol dim ond os oes modd cynnal ongl 45 gradd clir o olwg o ffenestri ystafelloedd cyfanheddol mewn adeiladau cyfagos. | ortal.gov.uk<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |
| **Ffotograffau a Ffotogyfosodiadau** | Nodyn Technegol 12 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion DM06, LU25 a LU26 | Yn ofynnol ar gyfer:<br><br>• datblygiadau newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth;<br>• ceisiadau tyrbin gwynt;<br>• hysbysebion sy'n ffinio'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol; a<br>• datblygiadau masnachol a phreswyl mawr a fydd yn newid golygfa neu dirlun stryd.<br><br>Mae'r ACLI yn croesawu'r wybodaeth | Dylai ffotogyfosodiadau ddangos sut y gall y datblygiad gael ei integreiddio'n foddhaol o fewn yr olygfa stryd neu'r dirwedd gyfagos. Os yw'n cael ei gynhyrchu i raddfa adnabyddadwy dylid nodi hynny'n glir. | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/;jsessionid=C2D75FFE41F676333EF773FB1A403D46?lang=en<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | hon ar fathau eraill o ddatblygiadau. | | |
| **Rhwymedig-aethau Cynllunio: Cytundebau Adran 106 Drafft (gan gynnwys ceisiadau i addasu neu gyflawni Adran 106) i gynnwys teitl y tir** | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Addasu a Chyflawni Rhwymedig-aethau Cynllunio) 1992 Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 2 a 6<br><br>Polisïau Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion S04, S05, LU24, DM05, DM13, DM15 | Yn y rhan fwyaf o achosion bydd ceisiadau am y canlynol yn gofyn i'r ymgeiswyr ymrwymo i rwymedigaeth Adran 106 gyda'r Awdurdod Lleol.<br><br>• Menter Wledig (TAN 6);<br>• Tai fforddiadwy;<br>• Taliadau gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy;<br>• Materion amgylcheddol; a<br>• Datblygiadau eraill y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y byddai cytundeb yn gwneud y cynnig yn fwy derbyniol ar sail defnydd tir ac ni ellir ei ddiogelu drwy amod cynllunio. | Mae Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i ACLl lunio cytundeb cyfreithiol rwymol neu rwymedigaeth gynllunio â datblygwr tir ar fater cysylltiedig. Gelwir y rhwymedigaeth yn 'Gytundeb Adran 106' fel arfer.<br><br>Gallai datganiad o'r Penawdau Telerau arfaethedig fod yn ofynnol i'w gyflwyno gyda'r cais. Bydd yn debygol o arbed amser wrth brosesu ceisiadau. Ar gyfer Rhwymedigaethau Adran 106 fel rheol bydd rhaid i ymgeiswyr ddarparu:<br><br>• copi cyfoes (h.y. o fewn y pythefnos diwethaf) o'r Teitl Cofrestredig a'r Cynllun Teitl neu gopi ardystiedig o'r Cynlluniau Teitl heb eu cofrestru gan ddangos ystent llawn y tir a berchenogir; a<br>• manylion y cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd.<br><br>Bydd tâl yn cael ei godi.<br><br>Os oes budd trydydd parti cofrestredig mewn unrhyw ran o'r tir y cynigir ei ddatblygu (e.e. banc yn dal arwystl ar y tir neu morgeisiai arall neu fudd ecwiti, perchennog ar y cyd ac ati), cânt eu henwi yn Adran 106 fel parti i'r cytundeb cyfreithiol. Felly dylech hysbysebu partïon o'r fath am y cais i ddatblygu'r tir mor gynnar â phosibl a rhoi copi drafft o Adran 106 iddynt. Yn ddelfrydol dylech geisio datganiad ganddynt eu bod wedi derbyn hysbysiad o'r fath a'u bod yn deall y gofynnir iddynt fod yn llofnodwr i'r Adran 106 pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo. Os oes modd dylai'r manylion cyswllt llawn ar gyfer y partïon â diddordeb hyn a chopi o ddatganiad/au ganddo/ganddynt gael eu cynnwys gyda'r Adran 106 drafft sy'n ategu'r cais cynllunio. Bydd hyn yn helpu i gyflymu cwblhau'r ddogfennaeth Adran 106 os/pryd y bydd caniatâd cynllunio wedi cael ei benderfynu.<br><br>Sylwch os hoffech addasu eich cytundeb Adran 106 o fewn 5 mlynedd o'i lofnodi, nid oes rhaid i'r ACLl ystyried | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Addasu a Chyflawni Rhwymedigaethau Cynllunio) 1992 http://www.legislation.gov.uk/uksi/1992/2832/contents/made<br><br>Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan2<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Templed Adran 106 Cyngor Sir Ceredigion |

| Dogfen | Deddfwriaeth / Sbardun Polisi | Pryd mae angen y Ddogfen | Pa Wybodaeth a Geisir | Cymorth Pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | | addasiad o'r fath o fewn yr amserlenni hynny. | |
| **Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol** | Polisi Cynllunio Cymru<br><br>Nodyn Technegol 20<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion Polisi S03, S04 a DM01 | Bydd angen Asesiad Cymunedol ac Ieithyddol ar gyfer ceisiadau:<br><br>1. Pe byddai'n creu datblygiad tai newydd<br>a) mewn Aneddiadau Cysylltiedig sy'n dod ymlaen ar gyfradd o fwy na 4% o'r cyfrif aneddiadau ar 1 Ebrill 2007 mewn unrhyw gyfnod dreigl o 5 mlynedd<br>b) mewn Canolfannau Gwasanaeth sy'n dod ymlaen ar gyfradd gyflymach na'r hyn y cyfeirir ato yn y Datganiad Grŵp Aneddiad (os caiff ei bennu)<br><br>Ar gyfer pob math arall o ddatblygiad lle mae graddfa'r datblygiad yn wahanol i'r hyn a ganiateir o dan bolisïau S03 a S04. | Fel rhan o'r cais, bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi ei gasgliadau ac i ddangos sut y byddai'r cynnig o fantais i'r gymuned leol. Yn ogystal, gellid cyflwyno mesurau lliniaru, sy'n berthnasol i'r cais, mewn ymateb i unrhyw effeithiau negyddol y datblygiad sydd wedi cael eu nodi drwy'r broses asesu. Cyflwynir y fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn o fewn Nodyn Cyfarwyddyd Interim. Ymhen amser caiff ei ddisodli gan Ganllaw Cynllunio Atodol y Gymuned a'r Iaith Gymraeg.<br><br>Ar ôl derbyn Asesiad bydd yr ACLI yn gwirio ac yn dilysu'r ffeithiau a'r casgliadau ynddo. Gall benderfynu ei fod yn anghytuno â rhai o'r rhain ac mewn achosion o'r fath bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddilysu'r ffeithiau a dod i gytundeb gyda'r ymgeisydd am y prif ystyriaethau mor gyflym â phosibl er mwyn peidio ag oedi'r broses ymgeisio yn ormodol. Yn ogystal, mae'n debyg y bydd sefydliadau ac unigolion o'r gymuned yn mynegi barn a allai fod yn berthnasol wrth helpu'r ACLI i wneud penderfyniad. | Polisi Cynllunio Cymru: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw<br><br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan20<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp<br><br>Nodyn Cyfarwyddyd Interim Cyngor Sir Ceredigion: |
| **Asesiad o Effaith Anghenion a Datblygu Twristiaeth** | Polisïau Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion LU14, LU17 | Yn angenrheidiol ar gyfer y safleoedd isod os ydynt yn rhai newydd:<br>• safleoedd carafanau teithiol<br>• safleoedd cabannau<br>• safleoedd chalets<br>• safleoedd gwersylla<br><br>Yn angenrheidiol ar gyfer estyniadau i'r safleoedd isod os ydynt mewn bodolaeth yn barod:<br><br>• safleoedd carafanau sefydlog<br>• safleoedd carafanau teithiol<br>• safleoedd cabannau<br>• safleoedd chalets<br>• safleoedd chalets | Dylai'r Asesiad gynnwys manylion ynghylch yr isod:<br>• Maint arfaethedig y datblygiad;<br>• Tystiolaeth dros yr angen am ddatblygiad o'r fath e.e. nid oes safleoedd yn y cyffiniau, rhestr aros o bobl yn dymuno defnyddio'r safle presennol ac ati.<br>• Tystiolaeth i ddangos bod y cynnig yn ymarferol/yn gynaliadwy o ran costau tybiedig y prosiect, h.y. gwariant cyfalaf, graddfeydd meddianniaeth disgwyliedig/trosiant/gorbenion, derbynion disgwyliedig net ac ati;<br>• Yr effaith ar y gymuned leol – sut y gwnaiff y datblygiad eu cefnogi e.e. mwy o refeniw i'r siop leol, creu swyddi.<br><br>Bydd llawer o'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i fusnesau twristiaeth oherwydd mae'n rhan gyffredin o'u | |

| **Dogfen** | **Deddfwriaeth / Sbardun Polisi** | **Pryd mae angen y Ddogfen** | **Pa Wybodaeth a Geisir** | **Cymorth Pellach?** |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd angen Asesiad o Effaith Anghenion a Datblygu Twristiaeth ar gyfer unrhyw gyfleusterau ac atyniadau twristaidd newydd. | cynlluniau busnes. | |